OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 401

# Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

## RHAN 2

## CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Personau sy'n cael eu cadw'n gaeth*

**Yr angen am gynllun datblygu unigol ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth ar ôl ei ryddhau**

**18.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys at ddiben penderfyniad awdurdod cartref o dan adran 40(2)(b) o Ddeddf 2018.

(2) Mae angen llunio cynllun datblygu unigol ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth ac eithrio—

(a) pan fo'n debygol y bydd y person sy'n cael ei gadw'n gaeth wedi cyrraedd 25 oed cyn cael ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth, neu

(b) pan fo'n annhebygol, yn achos person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth, y bydd gan y person anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant pan gaiff ei ryddhau.

(3) At ddibenion paragraff (2)(b), mae gan berson ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant o dan bob un o'r amgylchiadau a ganlyn—

(a) mae'r person ifanc wedi ei gofrestru'n ddisgybl neu wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn ysgol a gynhelir, sefydliad yn y sector addysg bellach neu Academi (pa un a yw'r ysgol a gynhelir neu'r sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu Loegr);

(b) mae gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant o dan reoliad 9(1);

(c) mae awdurdod lleol wedi penderfynu o dan reoliad 9(2) fod gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant.

(4) Pan fo'r awdurdod cartref yn penderfynu na fydd angen cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan gaiff y person hwnnw ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth, rhaid i'r awdurdod cartref wneud y penderfyniad hwnnw a rhoi'r hysbysiad ohono o dan adran 40(4) o Ddeddf 2018 yn brydlon ac mewn unrhyw achos cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod—

(a) yn achos plentyn, y tynnwyd sylw'r awdurdod cartref, neu yr ymddangosai i'r awdurdod cartref fel arall, y gall fod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol;

(b) yn achos person ifanc, y cydsyniodd y person ifanc i'r penderfyniad gael ei wneud o ran a oes gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol.

(5) Nid oes angen i'r awdurdod cartref gydymffurfio â'r gofyniad i wneud y penderfyniad hwnnw a rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod o 12 wythnos os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

(6) Wrth hysbysu person sy'n cael ei gadw'n gaeth, ac os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn blentyn, riant y plentyn, o dan adran 40(4) o Ddeddf 2018, na fydd angen cynllun datblygu unigol, rhaid i'r awdurdod cartref hefyd roi—

(a) manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod cartref;

(b) gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod cartref o dan adran 9 o Ddeddf 2018 ar gyfer darparu i bobl wybodaeth a chyngor ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a'r system y gwneir darpariaeth ar ei chyfer gan Ran 2 o'r Ddeddf honno;

(c) manylion ynghylch trefniadau'r awdurdod cartref ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau o dan adran 68 o Ddeddf 2018;

(d) manylion ynghylch trefniadau'r awdurdod cartref ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol o dan adran 69 o Ddeddf 2018;

(e) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg o dan adran 72 o Ddeddf 2018 yn erbyn y penderfyniad.

**Diwygiadau i adran 44 o Ddeddf 2018**

**19.**—(1) Mae adran 44 o Ddeddf 2018 (darpariaethau penodol Rhan 2 nad ydynt i fod yn gymwys i blant a phersonau ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) yn is-adran (1), ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

"(d) corff GIG.";

(b) yn is-adran (2), ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"(da) adran 20(5)(a) ac (c) (dyletswydd corff GIG i sicrhau triniaeth neu wasanaeth ac i gymryd pob cam rhesymol i'w sicrhau yn Gymraeg);".